Cofnodion cyfarfod rhithiol 8 Mawrth 2022 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Cynog Prys	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Nerys John		
Iestyn Harris	Cynghorydd Sir – Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Dywedodd wrth y Cyngor yn sicr bod Cyngor Cymuned y Felinheli yn datgan cefnogaeth i Wcráin a hefyd yn cefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Casi Roberts, Cynghorydd Lliwen Griffith-Williams a Cynghorydd Llŷr Evans.	
1.1	Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad 2022 - derbyniwyd yr adroddiad er Gwybodaeth.	**CLERC/IH**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Roedd y Cynghorydd yn bresennol a rhoddwyd y canlynol fel adroddiad llafar. Ceisiadau Cynllunio 11 a 11a Stryd Caernarfon Y Felinheli wedi eu caniatau ond gydag amodau.	
2.2	Roedd Ffordd Bangor wedi ei chau dros gyfnod oherwydd eu bod yn torri coed. Roedd gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn rhedeg cyn 9 ac ar ôl 4.	
2.3	Roedd adroddiad wedi ei dderbyn bod gwaith yn mynd yn ei flaen yng Ngardd yr hen Halfway er bod y cais cynllunio diweddar wedi ei wrthod. Mae'r Cyngor wedi eu hysbysu ac mae'r gwaith wedi ei atal ar y pryd. Gwrthodwyd y cais oherwydd yr edrychiad. Nid oes apêl na chais newydd wedi ei dderbyn ar hyn o bryd.	
2.4	Gofynnwyd y Cynghorydd Dan Williams os oedd y bwlch yn y llinellau melyn dwbl ger Brynffynnon yn mynd i gael ei gau? Dywedodd y Cynghorydd Sir y byddai yn ymdrin ar fater hwn.	
2.5	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod llawer iawn o sbwriel yn casglu yn y Safle Bws gwaelod Tafarngrisiau a byddai cael bin sbwriel yno o fudd. Cais i'w wneud at Gyngor Gwynedd.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Chwefror ac eglurwyd y sefyllfa ariannol. Derbyniwyd y gwariant a'r adroddiad ariannol.	
4.2	Cytunodd y Cyngor bod budd mewn bod yn aelod o Unllais Cymru. Penderfynwyd ymaelodi unwaith yn rhagor.	**CLERC**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	

5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mis Chwefror fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Roedd arwyddion wedi eu gosod ar y Lon Las ger yr hen Orsaf i ddweud bod y llwybr wedi ei gau. Roedd y Cynghorydd Emyr Gareth wedi hysbysu'r Clerc yn dweud bod y llwybr hwn yn ddelfrydol ar gyfer mynediad i Gae Peldroed y Felin ar gyfer timau ieuenctid y pentref. Roedd y gwaharddiad oherwydd bod angen torri'r coed. Fe gysylltodd y Clerc a Swyddog y Lon Las i weld os oedd angen y gwaharddiad dros y penwythnos. Death gwybodaeth i law nad oedd y gwaharddiad yn mynd yn ei flaen am y tro oherwydd bod tymor nythu wedi cychwyn. Bydd y coed yn cael eu torri wedi'r tymor nythu. Er bod y wybodaeth wedi dod i law nid oedd yr arwyddion wedi eu tynnu o'r lleoliad, fe roddwyd yr arwyddion i wynebu'r wal gan y Cynghorydd Emyr Gareth. Ymhellach i hyn roedd y Cynghorydd Nerys John am i ni atgoffa'r swyddogion bod y llwybr yn cael ei ddefnyddio fel ffordd fynedfa i'r Cae Peldroed a gwell fyddai i'r Contractwyr i gysylltu a'r clwb pan fydd y gwaith yn ail gychwyn. Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Nerys John i ddiweddaru'r Cyngor ar faterion llwybrau. Mae sbwriel yn ôl yn yr afon yng Ngherrig yr Afon. Dwy flynedd yn ôl fel trefnwyd achlysur i glirio'r afon gyda gwirfoddolwyr a Daniel Griffiths o Cadwch Gymru'n Daclus. Byddai trefnu digwyddiad o'r fath eto o fudd. Y Clerc i gysylltu â'r Swyddog. Mae Bont Gerdded ar Llwybr 23a yng nghoedwig Cefn wedi ei hadfer.	**CLERC/IH**
5.3	Cafwyd gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Cae Chwarae gan y Cynghorydd Emyr Gareth. Dywedodd bod y contractwyr wedi bod ar y safle wedi cyfeirio bod angen ail osod y cerrig, nid oedd geotextile wedi ei gyflwyno, bod angen paratoi'r tyllau, bydd y gwaith yn cymryd oddeutu 6 diwrnod.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Mae graffiti pellach wedi ymddangos ar y cysgodfannau. Hefyd mae pridd tu ôl i cysgodfan ar Ffordd Gaernarfon yn parhau. Y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Eifion William am ymdrin â'r mater.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Gweler eitem 5.2	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
	Dim	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Gweler eitem 5.3	**CLERC**

11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Rhoddwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Dan Williams ar y sefyllfa bresennol llawr y neuadd. Dywedodd wrth y Cyngor bod gwneud gwaith ar y llawr wedi dangos bod angen edrych ar draws haearn o dan y prosceniwm arch angen sylw oherwydd rhwyd. Cafwyd ymweliad gan Beiriannydd Strwythurol ac mae adroddiad wedi ei gyflwyno ynghyd a chyfarwyddiadau sut i ddatrys y mater. Oherwydd bod y nam wedi dod i'r golwg ar ochr Gaernarfon gwnaeth archwiliad ar ochr Bangor a gwelwyd bydd angen gwneud gwaith yr un fath ar yr ochr yno. Y Gwaith angenrheidiol fydd cyflwyno colofn allon frics ar bob pen. Mae manylion y costau wedi eu cofnodi cynt. Penderfynwyd bod y gwaith angen ei wneud a chytunwyd i wneud hynny	**CLERC**
12.0	**GWEFAN**	
	Mae ychydig waith cywiro wedi ei wneud ar y wefan. Mae angen gwneud newidiadau ar gyfer manylion cysylltiadau'r aelodau. Y gwaith i barhau yn enwedig go gyfer y Cy6ngor newydd ym mis Mai.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Roedd y giatiau wedi eu defnyddio yn ddiweddar. Bydd arwydd yn cael ei godi ar Allt Dinas – "Flip Sign" fydd i'w weithredu pan fydd y ffordd ar gau. Y Clerc am sicrhau a Zurich bod gwirfoddolwyr sydd yn ymateb a'r llifogydd yn cael eu gwarchod gan bolisi yswiriant y Cyngor.	**CLERC**
14.0	Casglu Sbwriel - dywedodd y Cynghorydd Nerys John nad oedd achlysuron cymunedol wedi bod ers y cl oar gyfer casglu sbwriel. Roedd modd i unigolion cael benthyg yr offer os ydynt yn dymuno gwneud gwaith gwirfoddol o gasglu sbwriel. Byddai yn rhoi'r wybodaeth ar dudalen facebook y Cyngor. Roedd y Cyngor yn gefnogol i hyn.	
15.0	Cafwyd gwybod bod y cerbyd oedd wedi bod mewn gwrthdrawiad yn parhau yn y maes parcio - Y Clerc i anfon llythyr ffurfiol i'r perchennog. Dywedodd y Cadeirydd byddai modd i'r Cyngor newydd wedi mis Mai creu polisi ar gyfer y Maes Parcio.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**